# Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018

**2018 dccc 3**

*Cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE*

**5 Darpariaeth a wneir o dan bwerau sy'n ymwneud â'r UE i barhau i gael effaith**

(1) Mae darpariaeth a wneir mewn offeryn statudol a wneir o dan un neu ragor o'r pwerau sy'n ymwneud â'r UE a nodir yn is-adran (2) ac a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau yn cael effaith o dan yr adran hon yn hytrach nag o dan y pwerau hynny ac mae i'w thrin fel pe bai wedi ei gwneud o dan yr adran hon.

(2) Y pwerau sy'n ymwneud â'r UE yw—

(a) adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972;

(b) paragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972;

(c) adran 56 o Ddeddf Cyllid 1973 i'r graddau y gwnaed y ddarpariaeth mewn cysylltiad ag unrhyw rwymedigaeth gan yr UE.

(3) Caniateir i ddarpariaeth a wneir mewn offeryn statudol a wneir o dan ddeddfiad ac eithrio'r pwerau sy'n ymwneud â'r UE a nodir yn is-adran (2) gael eu pennu hefyd o dan is-adran (1)—

(a) os gwneir yr offeryn statudol o dan un neu ragor o'r pwerau sy'n ymwneud â'r UE hefyd, a

(b) os gwneir y ddarpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2)(a) neu (b) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 neu os yw'n ymwneud fel arall â'r UE neu'r AEE.

(4) Dim ond i'r graddau y byddai darpariaeth a bennir o dan is-adran (1) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru pe bai wedi ei chynnwys mewn Deddf gan y Cynulliad (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth na ellid ond ei gwneud gyda chydsyniad un o Weinidogion y Goron) y mae'r ddarpariaeth yn cael effaith o dan yr adran hon ac i'w thrin fel pe bai wedi ei gwneud o dan yr adran hon.

(5) Caiff rheoliadau addasu'r darpariaethau a bennir o dan is-adran (1) neu wneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â hwy—

(a) os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod yr addasu neu'r ddarpariaeth bellach yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol darpariaethau a bennir o dan is-adran (1) ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, a

(b) os yw'r addasu neu'r ddarpariaeth bellach o fewn cymhwysedd datganoledig.

(6) Caiff rheoliadau o dan is-adran (5)—

(a) cynnwys (ymhlith pethau eraill) y mathau o ddarpariaeth a grybwyllir yn is-adrannau (5) a (6) o adran 4;

(b) addasu deddfiad.

(7) Ond ni chaiff rheoliadau o dan yr adran hon—

(a) gosod na chynyddu trethiant;

(b) gwneud darpariaeth ôl-weithredol;

(c) creu trosedd berthnasol;

(d) rhoi swyddogaeth i un o Weinidogion y Goron na gosod swyddogaeth arno;

(e) dileu nac addasu swyddogaeth cyn cychwyn un o Weinidogion y Goron oni bai bod gwneud hynny yn gysylltiedig â darpariaeth arall sydd wedi ei chynnwys yn y rheoliadau neu'n ganlyniadol iddi.

(8) Rhaid i reoliadau o dan yr adran hon—

(a) cael eu gwneud cyn y diwrnod ymadael, a

(b) peidio â dod i rym cyn y diwrnod ymadael.